

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 17 Mehefin 2021

Rhif Union: 01824 712568

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 23 MEHEFIN 2021** am **9.30 am** yn **TRWY CYFRWNG FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

#### **3 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

#### **4 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **5 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 9 - 18)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2020 (copi ynghlwm).

**7 ADOLYGIAD O BOLISI AC AMODAU TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT** (Tudalennau 19 - 92)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn ceisio adolygiad o'r Polisi Trwyddedu cyfredol yn ymwneud â Cherbydau Hacni (Tacsï) a Cherbydau Hurio Preifat, Gyrwyr a Gweithredwyr a chymeradwyaeth ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ar ddatganiad drafft o Bolisi Trwyddedu.

**8 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GERBYDAU DI ALLYRIADAU GYDA'R FFLYD O GERBYDAU TRWYDDEDIG** (Tudalennau 93 - 94)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn diweddarau aelodau ar y sefyllfa gyfredol yn ymwneud â Chynllun Peilot Tacsï Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer cerbydau di allyriadau.

**9 ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD** (Tudalennau 95 - 124)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm), yn diweddarau aelodau ar yr adolygiad o'r polisi masnachu ar y stryd a'r camau nesaf a argymhellir.

**10 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cael diweddariad ar lafar gan Reolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd.

**RHAN 2 - MATER CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth drafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**11 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 551134** (Tudalennau 125 - 142)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 551134.

**11.00 am**

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Joan Butterfield  
Hugh Irving  
Brian Jones  
Barry Mellor  
Melvyn Mile  
Merfyn Parry

Pete Prendergast  
Arwel Roberts  
Peter Scott  
Rhys Thomas  
Huw Williams

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned